# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Iau, 27 Ebrill 2023** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod J.Jones** |
| **Cynghorydd**: | C.James, S.Paddison, R.Davies, T.Bowen, H.Davies, C.James, C.Jordan, C.Phillips, S.Thomas a/ac C.Clement-Williams |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod W.F.Griffiths |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.E.Freeguard (Port Talbot;), S.Rahaman (Port Talbot;) a/ac P.Rogers (Cadoxton;) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, L.Thomas, M.Griffiths, T.Davies a/ac C.Plowman |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ymweliad(au) safle.

5. **CAIS P2022/1063 - SAFLE BLAENOROL YSGOL ISAF DYFFRYN**

Rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (datblygu 43 annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynedfa newydd, rhwydwaith ffyrdd mewnol, tirlunio, draenio cynaliadwy, parcio ar gyfer ceir a beiciau a dymchwel hen ysgol yn rhannol) ar hen safle Ysgol Isaf Dyffryn, Heol Talcennau, Port Talbot, fel a manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau Ward Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ac roeddent yn bresennol i roi eu sylwadau yn y cyfarfod.

Yn unol â phrotocol siarad cyhoeddus cymeradwy y cyngor, anerchwyd y Pwyllgor Cynllunio gan wrthwynebydd i'r cais, wedi'i ddilyn gan gynrychiolydd yr ymgeisydd a oedd yn cefnogi'r cais.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2022/1063, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS. P2023/0168 - TIR Y TU ÔL I 35-37 WOODLANDS PARK DRIVE**

Rhoddodd Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (gwaith ar 5 x derwen (a nodwyd fel 658, 659, 660, 661 a 664) a 2 ffawydden (a nodwyd fel 662 a 663) a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed T001/A1) ar dir yng nghefn 35, 36 a 37 Woodlands Park Drive, Llangatwg, fel a manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor gan fod yr ymgeisydd yn Aelod Etholedig o'r awdurdod. Roedd yr ymgeisydd yn bresennol i wneud sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2023/0168, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 20/03/2023 - 19/04/2023**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 20 Mawrth 2023 i 19 Ebrill 2023.

**PENDERFYNWYD:** Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

8. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**